

Cardiau Teithio Consesiynol: Hysbysiad Preifatrwydd:



Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae eich awdurdod lleol (y cyfeirir ato'n **rydym** neu **ni**) yn casglu a defnyddio gwybodaeth amdanoch (eich **gwybodaeth bersonol** neu'ch **data personol** yw hyn) wrth i chi wneud cais i ni am Gerdyn Teithio Consesiynol, a phob tro y byddwch yn defnyddio'r cerdyn i deithio. Mae hefyd yn dweud wrthych am eich hawliau preifatrwydd a sut mae'r gyfraith yn eich diogelu.

Rydym wedi cynnwys gwybodaeth fanwl am:

- Pryd a pham rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol;
- Sut rydym yn ei defnyddio;
- Yr amodau cyfyngedig y cewch ei rhoi i bobl eraill yn unol â nhw; a
- Sut rydym yn ei chadw yn ddiogel.

Rydym wedi penodi swyddog diogelu data (**SDD**) sydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am ateb cwestiynau ynghylch yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu am arfer eich hawliau cyfreithiol, cysylltwch â'n SDD.

Cyfeiriad post: **Y Swyddfeydd Dinesig**

Heol Holltwn

Y Barri

CF63 4RU

E-bost: FOIUnit@Valeofglamorgan.gov.uk

Mae gennych yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (**ICO**), awdurdod goruchwyllo materion diogelu data'r DU (www.ico.org.uk). Fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddelio gyda'ch pryderon cyn i fynd at yr ICO felly cysylltwch â ni yn y lle cyntaf.

Sylwch, o fis Medi 2019 ymlaen, caiff y gwaith o weinyddu Cardiau Teithio Consesiynol ei wneud ar sail Cymru gyfan gan Trafnidiaeth Cymru, y mae Llywodraeth Cymru yn berchen arni ac sy'n gyfrifol am faterion trafndiaeth yng Nghymru. Bydd system genedlaethol newydd yn galluogi gwneud ceisiadau ar-lein. Bydd hysbysiad preifatrwydd ar gael ar <https://tfw.gov.wales/cy/datganiad-preifatrwydd-cerdyn-teithio> o'r dyddiad hwnnw.

Y data rydym yn ei gasglu amdanoch:

Os gwnewch gais am Gerdyn Teithio Consesiynol, byddwn yn casglu, defnyddio a throsglwyddo'r mathau gwahanol canlynol o ddata personol amdanoch:

- **Data Adnabod** – enw/enwau cyntaf a chanol, enw a ffeirir, cyfenw a theitl. Byddwn hefyd yn casglu rhif Yswiriant Gwladol, dyddiad geni a gwybodaeth am unrhyw Gardiau Teithio Consesiynol rydych wedi'u cael (os yn briodol).
- **Data cyswllt** – cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn.

Cardiau Teithio Consesiynol: Hysbysiad Preifatrwydd:



- **Data Cerdyn** – rhifau cofrestru'r Cerdyn Teithio Consesiynol a manylion y teithiau rydych yn eu gwneud trwy ei ddefnyddio.
- **Categoriâu Arbennig Data Personol** – manylion am eich iechyd neu statws cyn-filwr os ydych yn gwneud cais am gerdyn Teithio Consesiynol Anabl. Nid ydym yn casglu unrhyw wybodaeth am hil neu ethnigrwydd, crefydd neu gredau athronyddol, bywyd rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, barn wleidyddol neu aelodaeth undeb llafur. Nid ydym yn casglu gwybodaeth am droseddau.
- **Data Marchnata a Chyfathrebu** – eich hoffterau ynghylch derbyn marchnata gennym ni a'n trydydd partion a'ch hoffterau cyfathrebu.

Rydym hefyd yn casglu, defnyddio a rhannu **Data Cyfanredol** megis data ystadegol neu ddemograffeg at unrhyw ddiben, gan gynnwys cynllunio trafndiaeth a chyllidebu. Gellir cael data cyfanredol o'ch data personol ond nid ystyrir ei fod yn ddata personol yn ôl y gyfraith gan nad yw'r datgelu pwy ydych chi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Sut mae eich data personol yn cael ei gasglu:

Rydym yn defnyddio gwahanol ddulliau o gasglu data gennych ac amdanoch gan gynnwys trwy:

- Ryngweithio uniongyrchol. Gallech roi i ni eich Data Adnabod a'ch Data Cyswllt trwy lenwi ffurflenni cais neu drwy gysylltu â ni. Mae hyn yn cynnwys data personol rydych yn ei roi wrth i chi:
 - gofrestru i wneud cais am Gerdyn Teithio Consesiynol neu i newid eich cais;
 - ffonio i ofyn cwestiynau; neu
 - rhoi adborth.
- Technolegau neu ryngweithiadau awtomataidd. Pan fyddwch yn defnyddio eich Cerdyn Teithio Consesiynol ar fws, bydd gweithredwr y bws yn casglu manylion eich cerdyn er mwyn iddo gael ei dalu am eich taith.

Sut rydym yn defnyddio eich data personol:

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn nodi y cawn ddefnyddio a rhannu gwybodaeth personol ond pan fo gennym reswm iawn a chyfreithiol i wneud felly.

Mae ein sail gyfreithiol ar gyfer proses eich gwybodaeth wrth wneud cais am gerdyn teithio consesiynol yn unol â'r 'Rhwymedigaeth Gyfreithiol' sydd yn unol â:

- **Deddf Trafndiaeth 2000**
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/38/pdfs/ukpga_20000038_en.pdf
- **Rheoliadau Consesiynau Teithio Gorfodol (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001**
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2001/3764/pdfs/wsi_20013764_mi.pdf

Cardiau Teithio Consesiynol: Hysbysiad Preifatrwydd:

Byddwn ond yn defnyddio eich data personol pan fo'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud felly. Rydym wedi cynnwys tabl isod o'r ffyrdd rydym yn bwriadu defnyddio eich data personol, a'n sail gyfreithiol dros wneud felly. Mae'r termau canlynol yn cael eu defnyddio yn y tabl isod:

- **Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol:** yn golygu prosesu eich data personol pan fo angen er mwyn i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoliadol rydym yn destun iddi. Fel awdurdod trafndiaeth, mae angen cyfreithiol i ni, dan Ddeddf Trafndiaeth 2000, roi Cardiau Teithio Consesiynol i unigolion sydd â'r hawl i'w cael, ac felly mae'r rhan fwyaf o'n prosesu at y diben o gyflawni'r rhwymedigaeth gyfreithiol hon.
- **Cyflawni tasg cyhoeddus:** yn golygu pan fo angen i ni brosesu eich data personol er mwyn cyflawni tasgau eraill er budd y cyhoedd. Er enghraifft, i sicrhau bod y cynllun cardiau consesiynol yn cael ei weinyddu'n effeithlon.

Fel arfer nid ydym yn dibynnu ar ganiatâd fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol.

Gweithgaredd	Mathau o ddata	Sail gyfreithiol
I brosesu eich cais am Gerdyn Teithio Consesiynol	(a) Pwy ydych chi (b) Cyswllt (c) Categoriâu arbennig o ddata personol	Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaeth gyfreithiol i roi cardiau i bobl sy'n gymwys
I gysylltu â chi am eich cais i ddatrys unrhyw ymholiadau	(a) Pwy ydych chi (b) Cyswllt	Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaeth gyfreithiol i roi cardiau i bobl sy'n gymwys
I gysylltu â chi am eich Cerdyn Teithio Consesiynol neu am eich cais	(a) Pwy ydych chi (b) Cyswllt	Angenrheidiol ar gyfer perfformio ein tasg cyhoeddus
I gysylltu â chi am ddefnyddio eich Cerdyn Teithio Consesiynol	(a) Pwy ydych chi (b) Cyswllt	Angenrheidiol ar gyfer perfformio ein tasg cyhoeddus i weinyddu'r cynllun Cardiau Teithio Consesiynol
I rannu data rhwng awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a Trafndiaeth Cymru er mwyn iddynt weinyddu'r cynllun Cardiau Teithio Consesiynol, i ad-dalu gweithredwyr ac i ddiogelu yn erbyn twyll	(a) Pwy ydych chi (b) Cyswllt (c) Data Cerdyn	(a) Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaeth gyfreithiol i roi cardiau i bobl sy'n gymwys (b) Angenrheidiol ar gyfer perfformio ein tasg gyhoeddus i weinyddu'r cynllun Cardiau Teithio Consesiynol
I newid telerau ac amodau'r cynllun Teithio Consesiynol	(a) Pwy ydych chi (b) Cyswllt	Angenrheidiol ar gyfer perfformio ein tasg gyhoeddus i weinyddu'r cynllun Cardiau Teithio Consesiynol
I ddilysu pwy ydych chi a chynnal gwiriadau i gadarnhau eich bod yn parhau i fod yn gymwys am deithio consesiynol	(a) Pwy ydych chi (b) Cyswllt	(a) Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaeth gyfreithiol i roi cardiau i bobl sy'n gymwys (b) Angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau i atal twyll a camddefnydd o'r cynllun

Byddwn hefyd yn defnyddio eich data personol i anfon gohebiaeth farchnata, os ydych yn caniatáu i ni wneud felly. Byddwn ond yn anfon marchnata atoch pan rydych wedi cytuno i'w dderbyn, a gallwch newid eich meddwl ar unrhyw adeg trwy gysylltu â ni.

Marchnata trydydd partion

Byddwn yn cael eich caniatâd optio i mewn cyn i ni rannu eich data personol gydag unrhyw gwmni y tu allan i Lywodraeth Leol at ddibenion marchnata.

Optio allan

Gallwch ofyn i ni neu i drydydd partion stopio anfon negeseuon marchnata neu ddiweddariadau e-bost atoch ar unrhyw adeg trwy ddilyn y dolenni optio allan ar unrhyw neges farchnata wedi'i hanfon atoch trwy gysylltu â ni ar unrhyw adeg dros e-bost yn FOIUnit@Valeofglamorgan.gov.uk

Datgelu eich data personol:

Fel y nodir yn y tabl uchod, rydym yn rhannu eich data personol rhwng Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru, sy'n defnyddio'r data hwn i reoli'r gronfa ddata Cardiau Teithio Consesiynol ac yn gweinyddu'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys cynnal gwiriadau i sicrhau bod yr holl ddata'n gywir ac yn gyfredol.

Hefyd, gallem rannu eich data personol gyda:

- Darparwyr gwasanaeth sy'n gweithredu fel ein proseswyr sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan
- Gweithredwyr bysus fydd yn derbyn ac yn proses rhif eich cerdyn pan fyddwch yn defnyddio eich cerdyn teithio consesiynol ar fws fel y gallant gael eu had-dalu
- Cynghorwyr proffesiynol gan gynnwys cyfreithwyr, archwilwyr ac yswirwyr sy'n darparu gwasanaethau cyfrifyddu, yswiriant, cyfreithiol ac ymgynghoriaeth i ni
- Cyllid a Thollau ei Mawrhydi, rheolyddion ac awdurdodau eraill y DU sydd gofyn bod gweithgareddau prosesu'n cael eu hadrodd mewn amgylchiadau penodol

Cadw eich data'n ddiogel:

Rydym wedi rhoi ar waith fesurau diogelu priodol i atal eich data personol rhag cael ei golli ar ddamwain, ei ddefnyddio neu'i gael mewn ffordd anawdurdodedig, ei newid a'i ddatgelu. Hefyd, rydym yn cyfyngu ar fynediad at eich data personol i'r cyflogeion, asiantau, contractwyr a thrydydd partion eraill hynny sydd ag angen gwybod sy'n ymwneud â busnes. Byddant ond yn prosesu eich data personol yn ôl ein cyfarwyddyd, ac maent yn destun dyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi ar waith weithdrefnau i ddelio gydag unrhyw fynediad diawdurdod at ddata personol amheus a byddwn yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reolydd perthnasol am fynediad diawdurdod pan fo gofyn cyfreithiol i wneud felly.

Nid ydym yn anfon unrhyw ddata personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewrop yn rheolaidd.

Am faint rydym yn cadw eich data personol:

Ni fyddwn yn cadw eich data personol yn hwy na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r dibenion rydym wedi'i gasglu ar eu cyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd.

Caiff eich gwybodaeth bersonol ei chadw am 6 blynedd yn y fformat y gwnaethoch gais am gerdyn teithio consesiynol yn wreiddiol ynddo. Ar ôl i chi gael eich cerdyn teithio consesiynol, caiff eich gwybodaeth bersonol ei storio'n ddiogel mewn system genedlaethol, a weinyddir gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru. Caiff eich gwybodaeth bersonol ei chadw ar system genedlaethol am 7 mlynedd ar ôl i'ch cerdyn teithio gael ei ganslo.

Mewn rhai amgylchiadau, gallwch ofyn i ni ddileu eich data: gweler Cais i Ddileu isod am fwy o wybodaeth.

Mewn rhai amgylchiadau, rydym yn gwneud eich data personol yn ddiennw (fel nad yw wedi'i gysylltu â chi mwyach) at ddibenion ymchwil neu ystadegol ac os yw hyn yn digwydd gallem ddefnyddio'r wybodaeth hon yn amhendant heb roi mwy o rybudd i chi.

Eich hawliau cyfreithiol:

Dan rai amgylchiadau, mae gennych hawliau dan ddeddfau diogelu data ynglŷn â'ch data personol. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i:

- **Gwneud cais i weld** eich data personol (a adwaenir yn gyffredin fel "cais gwrthrych am wybodaeth"). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r data personol rydym yn ei ddal amdanoch ac i wirio ein bod yn ei brosesu'n gyfreithlon.
- **Gwneud cais i gywiro** r data personol rydym yn ei ddal amdanoch. Mae hyn yn eich galluogi i drefnu i unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir rydym yn ei ddal amdanoch gael ei gywiro, er bydd rhaid i ni wirio cywirdeb y data newydd rydych yn ei roi i ni.
- **Cais i ddileu** eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ddileu neu dynnu data personol lle nad oes rheswm da i ni barhâi i'w brosesu. Mae hawl gennych hefyd i ofyn i ni ddileu neu dynnu eich data personol lle rydych wedi llwyddo i arfer eich hawl i wrthwynebu i'ch data personol gael ei brosesu (gweler isod), lle mae'n bosibl ein bod wedi prosesu'ch gwybodaeth yn anghyfreithlon neu lle mae'n ofynnol i ni ddileu eich data personol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Sylwer, fodd bynnag, na allwn ni bob amser fodloni eich cais i ddileu gwybodaeth am resymau cyfreithiol penodol a gaiff eu hysbysu i chi, lle bo'n berthnasol, ar adeg eich cais.
- **Gwrthwynebu prosesu** eich data personol lle rydym yn dibynnu ar berfformiad ein tasg cyhoeddus ac mae rhyw agwedd ar eich sefyllfa benodol sy'n peri i chi ddymuno gwrthwynebu prosesu ar y sail hon gan eich bod yn teimlo ei fod yn effeithio ar eich hawliau a'ch rhyddidau sylfaenol. Mewn rhai achosion, gallwn ni ddangos bod gennym sail gyfreithiol gadarn dros brosesu eich gwybodaeth sy'n drech na'ch hawliau a'ch rhyddidau.
- **Cais i gyfyngu ar brosesu** eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu eich data personol yn yr amgylchiadau canlynol: (a) os ydych am i ni asesu cywirdeb y data;

Cardiau Teithio Consesiynol: Hysbysiad Preifatrwydd:



(B) os yw ein defnydd o'r data yn anghyfreithlon ond nid ydych am i ni ei ddileu; (c) os oes angen arnoch i ni gadw'r data hyd yn oed os nad oes ei angen arnom mwyach oherwydd bod ei angen arnoch i asesu, arfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol; neu (d) os ydych wedi gwrthwynebu ein defnydd o'ch data ond mae angen i ni wirio a oes sail gyfreithlon drech i'w ddefnyddio.

Os hoffech chi arfer unrhyw rai o'r hawliau a nodir uchod, cysylltwch â ni.

Ni fydd angen i chi dalu ffi i weld eich data personol neu i arfer unrhyw o'r hawliau eraill. Fodd bynnag, gallai ffi resymol gael ei chodi arnoch os yw'ch cais yn ddi-sail, yn ailadroddus neu'n ormodol. Neu, gallem wrthod cydymffurfio â'ch cais yn yr amgylchiadau hyn.

Gallai fod angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu i gadarnhau pwy ydych chi ac i sicrhau eich hawl i weld eich data personol (neu i arfer unrhyw o'ch hawliau eraill). Mae'r mesur diogelwch hwn er mwyn sicrhau na chaiff data personol ei ddatgelu i unrhyw berson nad oes hawl ganddo i'w dderbyn. Hefyd gallem gysylltu â chi i ofyn i chi am fwy o wybodaeth am eich cais er mwyn cyflymu ein hymateb.

Rydym yn ceisio ymateb i bob cais dilys o fewn mis. Weithiau, gall gymryd mwy na mis os yw'r cais yn un sy'n benodol cymhleth neu fod gennych nifer o geisiadau. Yn yr achos hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac yn parhau i roi'r diweddaraf i chi.